Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Brynhyfryd

**Ffordd yr Wyddgrug**
**Rhuthun**
**LL15 1EG**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Brynhyfryd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Brynhyfryd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1053 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 864 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 189 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Uwchradd yw 20.2%) | 7.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Uwchradd yw 17.8%) | 11.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 43.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.7% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 03/04/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 12/05/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 09/10/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Brynhyfryd yn ysgol ofalgar lle rhoddir blaenoriaeth i les a chynnydd academaidd disgyblion. Llwyddir i gynnal amgylchedd dysgu diogel ble mae disgyblion a staff yn ffynnu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddel ymdeimlad cryf o falchder a pherthyn i gymuned yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn arddel polisi drws agored ac wedi llwyddo i greu diwylliant o onestrwydd a chydweithio ymysg ystaff. Mae gan arweinwyr ar bob lefel adnabyddiaeth dda o'r prif gryfderau a'r agweddau sydd angen eu gwella o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Daw hyn ar sail trefniadau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant newydd sy'n arfarnu'r ddarpariaeth yn ôl ei heffaith, er enghraifft yr effaith a gaiff yr addysgu ar safonau disgyblion. Gyda chefnogaeth uwch arweinwyr, mae'r pennaeth wedi datblygu gwerthoedd ysgol gyfan cytûn mewn partneriaeth â rhanddeiliaid.

Trwy eu hadnabyddiaeth dda o'r disgyblion a'u hanghenion, mae staff yn darparu cefnogaeth fugeiliol ofalus. Mae'r systemau olrhain cynnydd academaidd a lles cynhwysfawr yn sicrhau bod staff yn adnabod unrhyw anawsterau sydd gan ddisgyblion unigol yn fuan ac yn cynnig cymorth amserol. Er bod presenoldeb disgyblion yn gyson dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'n parhau'n rhy isel o gymharu â'r lefelau cyn y pandemig. Mae'r tîm sy'n cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud hyn yn llwyddiannus trwy ddarparu ymyraethau addas ac arweiniad clir i staff.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cytbwys a chynhwysol sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Atgyfnerthir hyn gan ddewis o ystod eang o gyrsiau amrywiol sy'n cyd-fynd â dyheadau disgyblion hŷn yr ysgol. Ar y cyfan, mae llawer o athrawon yn cynllunio gweithgareddau addas i sicrhau bod disgyblion yn gwneud datblygiad yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau digidol. Fodd bynnag, nid oes strategaeth ysgol gyfan ddatblygedig i sicrhau datblygiad cynyddol disgyblion yn y medrau hyn.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol â'u disgyblion. Maent yn cynnal awyrgylch gwaith bositif ac, yn sgil hyn, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau iach at eu gwaith ac mae llawer yn gwneud cynnydd cadarn dros amser. Cefnoga'r athrawon hyn y disgyblion yn dda gan gynnig adborth llafar gwerthfawr wrth gylchu'r dosbarth. Serch hyn, nid yw adborth ysgrifenedig athrawon ar waith disgyblion bob amser yn cynnig arweiniad digon clir iddynt ar sut i wella eu gwaith.

## Argymhellion

A1 Gwella presenoldeb

A2 Cryfhau ansawdd yr adborth mae disgyblion yn ei gael ar sut i wella'u gwaith

A3 Cryfhau'r cydlynu strategol ar gyfer datblygiad cynyddol disgyblion yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion Ysgol Brynhyfryd, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn dros amser. Maent yn adalw gwybodaeth flaenorol yn dda a’i chymhwyso i gyd-destunau newydd yn fuddiol. Yn yr ychydig o achosion ble mae’r addysgu’n hynod effeithiol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd uwchlaw’r disgwyl. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn gwneud cystal cynnydd â’r disgwyl. Mae hyn yn gysylltiedig â disgwyliadau isel athrawon neu ddiffyg her yn eu cynllunio. Yn gyffredinol, mae disgyblion y chweched dosbarth yn gwneud cynnydd cryf yn eu gwybodaeth a dealltwriaeth bynciol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando’n astud ar eu hathrawon ac ar ei gilydd. Maent yn ymateb i gwestiynau yn bwrpasol ac yn cyfrannu’n hyderus ar lafar, er enghraifft pan maent yn trafod Gwen, merch Ellis, y wrach leol ym Mettws yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Mae llawer o ddisgyblion yn trafod yn aeddfed gydag athrawon ac oedolion eraill yn y Gymraeg a Saesneg. Mae lleiafrif y disgyblion yn cyfrannu ar lafar yn rhugl ac yn hyderus iawn gan ddefnyddio iaith soffistigedig yn aml. Maent yn ymestyn eu hymatebion ymhellach ac yn arddangos dealltwriaeth ddyfnach o'r testun. Yn y gwersi Cymraeg iaith gyntaf, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd o eirfa gyfoethog ac idiomau yn gwbl naturiol. Er hyn, mae ychydig o ddisgyblion yn dawel ac mae eu cyfraniadau ar lafar yn fyr neu’n brin. Ar brydiau, mae hyn oherwydd natur cwestiynu cul neu gyfyngedig yr athro. Mewn ychydig o achosion, mae geiriau Saesneg yn britho ymatebion disgyblion pan maent yn siarad Cymraeg.

Pan fydd yn briodol, ac o gael y cyfle, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ar goedd yn fedrus gan amrywio tôn eu llais er mwyn apelio at wrandawyr. Yn eu gwersi Saesneg, mae llawer o ddisgyblion yn crynhoi gwybodaeth o destunau heriol yn llwyddiannus. Mewn pynciau eraill, mae’r mwyafrif yn darllen testunau amrywiol yn fuddiol er mwyn cywain gwybodaeth a ffurfio esboniadau dilys. Er enghraifft, yn eu gwersi daearyddiaeth, mae disgyblion yn dadansoddi gwybodaeth am gyfandiroedd y byd yn fedrus. Er hyn, mae lleiafrif y disgyblion yn dibynnu gormod ar dderbyn gwybodaeth gan eu hathrawon yn hytrach na’i chanfod yn annibynnol.

Mae llawer o ddisgyblion yn strwythuro eu gwaith ysgrifenedig yn briodol gan ddefnyddio brawddegau, paragraffau a chystrawennau’n gywir yn y ddwy iaith. Ar y cyfan, maent yn trefnu gwybodaeth yn rhesymegol ac yn ysgrifennu’n annibynnol yn

briodol. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio termau pynciol yn gywir ac yn gwneud defnydd o ystod eang o eirfa er mwyn amrywio eu gwaith. Mae'r disgyblion mwyaf galluog yn defnyddio geirfa soffistigedig ac aeddfed wrth ymateb i gwestiynau a thasgau. O ganlyniad i sesiynau gloywi iaith penodol, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn raenus yn eu gwersi Cymraeg, er enghraifft pan maent yn ysgrifennu dyddiadur March ap Meirion fel rhan o'u gwaith ar chwedl 'Clustiau March'. Mae llawysgrifen a chyflwyniad cyffredinol ychydig o ddisgyblion yn flêr ac maent yn gwneud camgymeriadau sillafu elfennol yn y ddwy iaith.

Yn y gwersi cyfrwng Cymraeg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sgwrsio'n naturiol yn y Gymraeg gan ddefnyddio geirfa gyfoethog, gan amlaf. Mae ychydig iawn yn defnyddio cystrawennau cywir a iaith graenus dros ben. Yn eu gwersi Cymraeg ail iaith, mae lleiafrif y disgyblion yn siarad Cymraeg yn briodol. Fodd bynnag, tu hwnt i'w gwersi Cymraeg, nid yw disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn defnyddio'r Gymraeg yn aml.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhifedd addas ac maent yn eu cymhwyso'n briodol yn eu gwersi mathemateg. Maent yn adio a thynnu rhifau negatif yn llwyddiannus ac yn cyfrifo gyda chanrannau yn annibynnol heb gyfrifiannell. Mae'r disgyblion hyn yn amnewid rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau'n hyfedr mewn cyfrifiadau syml. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn ymdrin ag onglau a gwaith siâp syml yn gadarn. Fodd bynnag, yn y pynciau perthnasol eraill tu hwnt i fathemateg, mae datblygiad medrau rhifedd y disgyblion yn anghyson. Yn y pynciau hyn, nid yw lleiafrif y disgyblion yn llunio graffiau'n gywir, yn aml. Mae mwyafrif y disgyblion yn darllen graddfeydd syml yn gywir ar amrywiaeth o offer mesur. Mae disgyblion mwy galluog yn dehongli gwybodaeth o graffiau llinell yn gywir ac yn ffurfio casgliadau priodol.

O gael y cyfle, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn briodol. Maent yn defnyddio meddalwedd digidol pwnc-benodol yn fuddiol, er enghraifft pan maent yn creu animeiddiadau yn eu gwersi technoleg ddigidol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol gwerthfawr, er enghraifft yn eu gwersi celf wrth dynnu llun delweddau symbolaidd yn arddull Vanitas yr unfed ganrif ar bymtheg. Yn eu gwersi addysg gorfforol, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn gadarn ac yn arddangos lefelau ffitrwydd cardiofasgwlaidd priodol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn creu dilyniant creadigol aerobeg dŵr yn gwbl annibynnol ac yn ei berfformio'n llwyddiannus. Yn yr ychydig o wersi mwyaf effeithiol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau meddwl yn annibynnol. Er enghraifft, maent yn ystyried safbwyntiau gwahanol ac yn eu defnyddio i strwythuro dadleuon wrth astudio cerflun Edward Colston a bywyd H. M. Stanley.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at fywyd ysgol ac maent yn datblygu medrau cymdeithasol cryf trwy ryngweithio â staff, ymwelwyr a chyfoedion. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn dweud eu bod yn rhydd rhag unrhyw fwlio, a'u bod yn gwybod at bwy i droi pe byddai ganddynt bryderon. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn arddel ymdeimlad cryf o falchder ac o berthyn i gymuned yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n cael cefnogaeth yn y canolfannau cymorth yn elwa o'r gofal maent yn ei gael ac yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau cymdeithasol.

Mae disgyblion yn rhannu eu barn yn rheolaidd ar agweddau ar fywyd yr ysgol, er enghraifft drwy'r fforymau blwyddyn a thrwy fod yn gynrychiolwyr blwyddyn ar y 'Cyngor Ysgol'. Mae hyn wedi cael dylanwad cadarnhaol ar rai agweddau o fywyd yr ysgol gan arwain at newidiadau er gwell, fel arosfan newydd ar iard Blwyddyn 11, cynyddu biniau sbwriel o gwmpas y safle a chyfleoedd pellach i ailgylchu. Yn ddiweddar, mae bron bob disgybl wedi cyfrannu'n fuddiol at lunio gwerthoedd newydd yr ysgol.

Mae disgyblion y chweched dosbarth yn llysgenhadon arbennig i'r ysgol. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu dysgu ac maent yn datblygu'n bobl ifanc hyderus, aeddfed a chyfrifol. Maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i fywyd yr ysgol ac yn datblygu medrau arwain buddiol, er enghraifft drwy gynorthwyo disgyblion iau mewn gwersi. Mae llawer o ddisgyblion y chweched dosbarth yn cyfrannu'n bwrpasol i wahanol weithgareddau allgyrsiol sy'n cynnwys gweithgareddau chwaraeon niferus, corau a cherddorfeydd. Maent hefyd yn mwynhau mynychu cyrsiau preswyl a theithiau amrywiol sy'n hybu eu dysgu, er enghraifft taith breswyl i wersyll Glan-llyn gyda'r adran Gymraeg.

Mae'r ymdeimlad o barch rhwng staff a disgyblion yn gryf o fewn yr ysgol ac mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion berthynas waith gadarnhaol â'u hathrawon. Maent yn gwrando'n astud ar yr athro a'u cyfoedion, ac maent yn frwdfrydig wrth ymgymryd â thasgau yn y dosbarth. Mae gan lawer o ddisgyblion ddisgwyliadau uchel o'u hunain o ran ymddygiad a chyflawniad. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd eu gwersi'n  brydlon, yn ymgysylltu'n dda ac yn dyfalbarhau trwy gydol y wers. Maent yn cyfrannu'n llawn yn eu gwersi addysg gorfforol. Mae llawer yn cydweithio'n dda mewn parau a grwpiau bychain, pan gânt gyfle. Er enghraifft, yn eu gwersi cerdd, mae disgyblion Blwyddyn 7 yn perfformio rhythmau amrywiol mewn grwpiau bychain.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn eu gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o degwch, cydraddoldeb, cynaliadwyedd a hawliau plant. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn aflonyddu ar y coridorau ac nid ydynt bob amser yn gwerthfawrogi'r cyfleusterau sydd ar gael iddynt. Ar y cyfan, mae disgyblion yn teimlo bod staff yn ymyrryd ac yn delio'n effeithiol ag unrhyw fân achosion o gamymddwyn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r system wobrwyo ac yn mwynhau derbyn cardiau post sy'n canmol eu hymdrechion.

Mae lefelau presenoldeb yr ysgol gyfan yn gyson dros y ddwy flynedd diwethaf ond yn parhau'n is na'r lefelau cyn y pandemig. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn sylweddol is na'u cyfoedion.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol gadarn. Maent yn meithrin perthynas waith gadarnhaol a chefnogol â'u disgyblion. Mae llawer o athrawon yn gosod disgwyliadau clir i'r disgyblion, yn eu cwestiynu'n gyson i brofi eu dealltwriaeth a'u dysgu blaenorol ac yn cynnig adborth llafar adeiladol trwy gydol y wers. Mae'r athrawon hyn yn defnyddio strategaethau rheoli dosbarth effeithiol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw fân darfu. Pan mae cymorthyddion dysgu yn cydweithio ag athrawon mewn gwersi penodol, rhoddant gymorth gwerthfawr i ddisgyblion unigol neu grwpiau sydd angen cefnogaeth bellach. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, rhoddant

ormod o gefnogaeth i'r disgyblion hyn sy'n golygu nad ydynt yn gweithio'n ddigon annibynnol.

Mae gan ychydig o athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o ran beth gall disgyblion ei gyflawni. Mae’r athrawon hyn yn frwdfrydig iawn wrth gyflwyno, yn angerddol am eu pwnc ac yn datblygu perthynas waith ardderchog â disgyblion. Maent yn cynllunio tasgau’n ofalus iawn er mwyn adeiladu lefel yr her yn effeithiol ac yn sicrhau bod y gwaith yn cyfateb yn dda i ofynion disgyblion unigol. Maent yn holi disgyblion yn fedrus er mwyn procio eu dealltwriaeth a’u hannog i gyfiawnhau neu ymestyn eu hymatebion.

Mae mwyafrif yr athrawon yn cynllunio tasgau’n fwriadus er mwyn adeiladu dealltwriaeth y disgyblion yn effeithiol. Maent yn darparu adnoddau sy’n ennyn diddordeb disgyblion ac yn cefnogi’r dysgu. Mae’r athrawon hyn yn arwain gwersi gyda thempo addas sy’n cyd-fynd â chyflymder dysgu’r disgyblion. Maent yn esbonio’n glir i sicrhau bod disgyblion yn deall gofynion tasgau. Mae lleiafrif yr athrawon yn modelu gwaith yn effeithiol fel bod disgyblion yn deall safon ddisgwyliedig y gwaith.

Mewn lleiafrif o achosion, mae ansawdd yr addysgu yn golygu nad yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent. Mae hyn oherwydd bod athrawon yn cynllunio gweithgareddau sydd ddim yn ddigon heriol neu mae eu disgwyliadau yn rhy isel. Yn yr achosion hyn, mae’r athrawon yn gor-reoli’r dysgu, yn rhoi cyflwyniadau rhy hir neu’n camamseru tasgau. O ganlyniad, mae diffyg cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan weithredol yn y wers. Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn ffocysu’n ormodol ar beth maent am i ddisgyblion ei wneud yn hytrach nag ystyried beth maent am i ddisgyblion ei ddysgu. Nid yw’r athrawon hyn yn defnyddio strategaethau rheoli dosbarth yn ddigon effeithiol.

Mewn ychydig o bynciau, mae athrawon yn cynnig adborth ysgrifenedig perthnasol a defnyddiol ar waith disgyblion. Maent yn adnabod meysydd sydd angen eu gwella ac yn cynnig sylwadau priodol neu gwestiynau dilynol addas i annog disgyblion i feddwl yn ehangach. Pan gânt gyfle, mae disgyblion yn ymateb yn briodol i’r adborth trwy ailddrafftio neu wella eu gwaith. Serch hyn, ar draws llawer o bynciau, nid yw sylwadau athrawon yn ddigon clir i arwain disgyblion i wella eu gwaith.

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm cytbwys a chynhwysol sy’n bodloni gofynion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Cynigir ystod eang o gyrsiau yn y chweched dosbarth ac yng nghyfnod allweddol 4 sy’n ymateb yn dda i ddyheadau a dymuniadau disgyblion. Mae’r cyrsiau ar gael yn y Gymraeg neu’r Saesneg bron ym mhob achos. Cydweithia’r ysgol yn briodol gyda phartneriaid allanol er mwyn ymestyn a chyfoethogi’r ddarpariaeth. Darperir cyngor ac arweiniad gofalus i’r disgyblion gan yr ysgol a phartneriaid allanol wrth iddynt symud i’r camau nesaf yn eu haddysg, i hyfforddiant neu gyflogaeth. Ar y cyfan, mae’r cwricwlwm yn rhoi sylw da i hyrwyddo lles a gwytnwch y disgyblion yn ogystal â’u medrau dysgu annibynnol. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn cyfrannu’n dda at ddarpariaeth allgyrsiol yr ysgol yn ogystal â chefnogi disgyblion iau yn eu rolau cynhaliol fel ‘bydis’ dysgu.

Mae gweledigaeth gadarn gan yr ysgol tuag at weithredu Cwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr yn sicrhau arlwy ysgogol a pherthnasol sy’n ennyn chwilfrydedd a

diddordeb y disgyblion. Maent yn parhau i gydweithio ag ysgolion cynradd y clwstwr i ddatblygu a mireinio cynlluniau ac i sicrhau dilyniant priodol ar draws y ddwy sector.

Mae’r cydlynwyr llythrennedd, rhifedd a medrau digidol wedi datblygu cynlluniau ac arweiniad trefnus a buddiol ar gyfer adrannau ar draws yr ysgol. Maent yn datblygu’n gynyddol effeithiol yn eu rolau ac yn eiriolwyr cryf ac egnïol dros eu meysydd cyfrifoldeb. Er hynny, nid yw’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cynyddol disgyblion wedi’i chynllunio’n strategol ar draws y cwricwlwm. Mae trefniadau ar gyfer monitro’r ddarpariaeth ar draws y pynciau perthnasol yn eu dyddiau cynnar.

Mae’r cwricwlwm yn cynnwys profiadau gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am natur diwylliant eu hardal yn ogystal â Chymru a’r byd yn ehangach. Mae gweithgareddau dysgu buddiol ynglŷn â hanes a phrofiadau pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, amrywiaeth a chynhwysiant yn amlwg o fewn pynciau a chyfnodau boreol.

Mae’r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn addas ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o fyw’n iach a chreu perthnasoedd cadarnhaol. Mae rhaglen gynhwysfawr ar waith sy'n cynnwys amrywiaeth o bynciau a mewnbwn gan ymwelwyr amrywiol sy'n cefnogi’r cwricwlwm yn addas.

Mae ethos Cymraeg a Chymreig priodol yn yr ysgol sy’n cael ei hyrwyddo a’i gefnogi gan ystod o weithgareddau a phrofiadau gwerthfawr. Mae staff yn llwyddo i ddatblygu medrau ieithyddol, diwylliannol a chelfyddydol y disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn ymroi’n llawn er mwyn elwa o’r profiadau a datblygu’n ddinasyddion gwbl ddwyieithog.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Brynhyfryd yn gymuned ddwyieithog ofalgar a chynhwysol. Cefnogir anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Mae’r staff bugeiliol yn meddu ar wybodaeth gynhwysfawr am anghenion disgyblion ac maent yn llwyddo i feithrin perthynas waith agos â nhw. Mae gan yr ysgol arferion bugeiliol cryf i gefnogi ei disgyblion. Maent yn ffocysu’n bwrpasol ar bresenoldeb ac ymddygiad ysgol gyfan, ac yn olrhain cynnydd disgyblion cyfnod allweddol 4. Mae’r tîm bugeiliol yn cyfarfod yn rheolaidd i adnabod unrhyw rwystrau penodol sydd gan ddisgyblion ac yn cytuno ar gamau gweithredu pwrpasol i sicrhau gwelliant. Mae hwn yn arfer gryf.

Mae staff yn cydweithio â phartneriaid allanol yn bwrpasol i sicrhau cefnogaeth bersonol sy’n canolbwyntio ar anghenion disgyblion unigol. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda’r heddlu, gweithwyr ieuenctid a’r gwasanaethau iechyd i sicrhau bod pob disgybl yn cael y gofal a’r cymorth angenrheidiol. Mae staff yn delio’n amserol ac yn effeithiol gydag achosion prin iawn o fwlio.

Mae gan y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY) newydd adnabyddiaeth dda o’r disgyblion a’u hanghenion. Mae’n dechrau gweithio’n strategol er mwyn datblygu’r cydweithio rhwng y tîm ADY, staff bugeiliol a’r athrawon er mwyn gwella’r gefnogaeth i ddisgyblion. Mae’r ysgol yn ymateb i ofynion y ddeddf ADY, ac mae cynlluniau datblygu unigol (CDU) yn cynnwys gwybodaeth fanwl am anghenion disgyblion unigol ynghyd â thargedau priodol. Cefnogir disgyblion sydd angen cymorth dysgu ychwanegol neu anogaeth emosiynol ac ymddygiadol trwy’r ‘Ganolfan Ymchwil’, yr ‘Hafan’ yr ‘Ystafell Dawel’ a’r ‘Ganolfan Fugeiliol’. Yn gyffredinol, mae’r

ymyraethau sy’n cael eu cynnig yn y mannau hyn yn datblygu’n addas ond mae’n ddyddiau cynnar i weld eu heffaith yn llawn ar les disgyblion a’u hagweddau at ddysgu.

Mae gan yr ysgol systemau priodol i fonitro presenoldeb ac mae trefniadau clir ar waith i weithredu’n amserol mewn achosion o absenoldebau cyson. Mae hyn yn cynnwys strategaethau pwrpasol ar gyfer cynorthwyo’r disgyblion hyn i ddychwelyd i addysg yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael effaith ddigonol ar lefelau presenoldeb ysgol gyfan. Mae’r trefniadau ar gyfer cefnogi ymddygiad disgyblion yn addas. Mae hyn yn cynnwys gwobrwyo disgyblion am waith ac ymdrech dda a chamau graddedig synhwyrol i ddelio ag ymddygiad annerbyniol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Gwneir hyn trwy wasanaethau, gweithgareddau munud i feddwl a thrwy’r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Mae’r rhaglen wedi ei theilwra yn ôl yr angen at anghenion lles disgyblion, gan gynnwys cyflwyniadau gan siaradwyr gwadd, asiantaethau allanol a diwrnodau iechyd a lles. Er enghraifft, cynhelir gwasanaeth a sesiynau boreol ar ‘Ddiwrnod Iechyd Meddwl y Byd’ i godi ymwybyddiaeth ac i gefnogi disgyblion i ddeall a derbyn cefnogaeth, yn ôl yr angen.

Mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion rannu eu barn a dylanwadu ar agweddau o fywyd ysgol trwy’r fforymau blwyddyn a chyngor yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi cyfrannu at newid agweddau ar y wisg ysgol a threfn y dydd yn ddiweddar. Yn gyffredinol, mae’r cyfleoedd i ddisgyblion leisio eu barn ar agweddau ehangach ar fywyd yr ysgol, fel agweddau ar ddysgu ac addysgu, yn llai datblygedig.

Darperir arlwy briodol o weithgareddau allgyrsiol buddiol sy’n cynnwys clybiau chwaraeon a chyfleoedd cerddorol sy’n caniatáu i ddisgyblion ddatblygu eu hunanhyder a’u medrau ehangach. Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion fynd ar deithiau addysgol, fel gweithgareddau awyr agored yn yr Ardèche neu daith gerdded leol i Foel Gyw.

Mae uwch arweinwyr yn blaenoriaethu cadw disgyblion a staff yn ddiogel. Mae trefniadau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant yn gadarn ac yn wybyddus i bawb. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus y bydd staff yn ymateb yn briodol i unrhyw achos o bryder. Mae’r holl staff a llywodraethwyr wedi cael hyfforddiant ar faterion diogelu. Mae’r ysgol yn bodloni gofynion statudol recriwtio diogel. Mae safle’r ysgol yn eang a rheolir y mynediad yn dynn i sicrhau diogelwch pawb.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn, hawddgar ac agored sydd wedi llywio’r ysgol trwy newid graddol i greu diwylliant o gydweithio a meithrin ymddiriedaeth yr holl staff. Mae wedi datblygu’r weledigaeth, sef ‘Llais i bawb a chlust i wrando’, ar sail gwerthoedd newydd yr ysgol. Mae’r weledigaeth hon yn glir ac yn ddealladwy i staff, disgyblion a rhieni gan ei bod yn ffrwyth llafur cydweithio ac ymgynghori gofalus.

Cefnogir y pennaeth yn dda gan dîm arwain sy’n cynnwys dirprwy bennaeth, dau bennaeth cynorthwyol a thri phennaeth cyswllt. Mae eu cyfrifoldebau wedi’u

dosbarthu'n synhwyrol a chytbwys. Maent yn cydweithio'n agos ac, ar y cyfan, yn gweithredu'n strategol ar draws yr ysgol.

Mae gan y rhan fwyaf o arweinwyr canol ddealltwriaeth dda o safonau ac ansawdd addysgu yn eu hadrannau a chyfadrannau. Mae'r penaethiaid cyfadran yn cyfrannu'n fuddiol at weithgareddau gwarantu ansawdd ac yn defnyddio'r wybodaeth i adnabod cryfderau a gwendidau yn gywir. Mae'r tîm bugeiliol yn arfarnu eu gwaith yn rheolaidd a thrylwyr ac yn adnabod meysydd sydd angen sylw yn brydlon. Mae hyn yn gryfder.

Mae trefniadau rheoli llinell yn gadarn ac mae uwch arweinwyr yn cynnig her briodol i arweinwyr canol. Mae'r cyfarfodydd cyson yn cynnwys agenda gytunedig a gweithredir ar y penderfyniadau yn amserol. Trwy hyn, mae arweinwyr yn cynnig cefnogaeth werthfawr ac yn sicrhau atebolrwydd. Mae arweinwyr yn rheoli perfformiad athrawon trwy drefniadau cadarn ac maent yn gosod targedau addas a chyfleoedd monitro pwrpasol. Cefnogir y trefniadau hyn gan gyfleoedd dysgu proffesiynol, lle bo'n berthnasol. Nid yw'r ysgol yn gweithredu trefn gyfatebol ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon.

Ymateba'r ysgol yn briodol i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae arweinwyr yn cynllunio'n fwriadus i her lliniaru effaith tlodi ar gyrhaeddiad a lles disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim gan dracio ac olrhain cynnydd y disgyblion hyn yn systematig. Mae arweinwyr yn datblygu Cwricwlwm i Gymru yn raddol trwy addasu rhaglenni dysgu i gynnwys profiadau mwy apelgar a diddorol.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni yn briodol trwy amrywiol ddulliau. Cynhelir nosweithiau gwybodaeth cynhwysfawr, rhennir llawlyfrau ac anfonir negeseuon trwy destun a'r gwefannau cymdeithasol. Mae'r 'Fforwm Rhieni' yn llwyfan gwerthfawr i arweinwyr ganfod barn rhieni yn ogystal â rhannu gwybodaeth am gynlluniau'r ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn wybodus ac yn gefnogol o'r ysgol a'i harweinwyr. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o'r corff llawn ac is bwyllgorau perthnasol ac mae'r llywodraethwyr yn glir ynghylch eu rôl. Maent yn herio arweinwyr pan fydd yn briodol er mwyn sicrhau atebolrwydd. Caiff aelodau'r corff llywodraethol eu clustnodi fel cyswllt i adrannau a blynyddoedd penodol. Maent yn cymryd rhan weithredol mewn adolygiadau bugeiliol rheolaidd ac yn cyfrannu'n fuddiol i waith yr adrannau. Maent yn sicrhau eu bod yn cadw at eu cyfrifoldebau statudol, fel cynnal diwylliant o ddiogelu a hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r llywodraethwyr, y pennaeth a'r swyddog cyllid yn rheoli cyllideb yr ysgol yn ofalus. Dros amser, maent wedi llwyddo i wyrdroi diffyg sylweddol yn y gyllideb i warged rhesymol. Gwneir defnydd priodol o grantiau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i sicrhau darpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd ag incwm isel. Er hynny, nid yw'r defnydd o'r grant datblygu disgyblion yn cael ei arfarnu'n llawn yn ôl ei effaith ar ddeilliannau'r disgyblion hynny.

Mae'r pennaeth wedi dechrau diwygio'r drefn hunanwerthuso er mwyn creu diwylliant sy'n cynnwys arweinwyr canol fel rhan annatod o'r broses. Mae calendr addas o weithgareddau i werthuso gwaith yr ysgol. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau a theithiau dysgu er mwyn sicrhau tystiolaeth

gynhwysfawr. Caiff y canfyddiadau eu crynhoi ar ffurf ddefnyddiol i'w rhannu â staff. Mae'r canfyddiadau'n ystyried effaith y ddarpariaeth ar safonau disgyblion yn dda.

Mae arweinwyr yn caffael barn rhanddeiliaid yn effeithiol trwy ymgynghoriadau a holiaduron. Maent hefyd yn gweithio'n fwriadus gyda phartneriaid allanol er mwyn dilysu eu gwaith. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i arweinwyr eu bod wedi adnabod y prif gryfderau a meysydd i'w gwella yn hynod o effeithiol.

Mae blaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol yn deillio'n uniongyrchol o brosesau hunanwerthuso a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft y flaenoriaeth i wella ansawdd adborth ac asesu. Mae'r cynllun yn fanwl ac yn nodi gweithredoedd i gyrraedd y blaenoriaethau. Mae'r cynlluniau cyfadrannol yn cyd-fynd â'r hyn sydd yng nghynllun gwella'r ysgol yn ogystal â chynnwys blaenoriaethau wedi eu teilwra ar gyfer y gyfadran. Mae ychydig o enghreifftiau ble mae deilliannau disgyblion wedi gwella yn dilyn gwerthusiad manwl ac addasu'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw pob cynllun yn nodi trefniadau monitro na cherrig milltir yn ddigon manwl.

Mae'r cynllun strategol dysgu proffesiynol yn amlinellu amrediad priodol o hyfforddiant a chyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael i'r staff. Gall unigolion fanteisio ar gyfleoedd gwerthfawr y tu allan i'r ysgol tra bod hyfforddiant mewnol yn plethu'n bwrpasol â blaenoriaethau'r ysgol a rhai cenedlaethol. Mae effaith y dysgu proffesiynol yn amlygu ei hun mewn ychydig o agweddau ar fywyd yr ysgol. Mae'n rhy gynnar i weld effaith lawn hyfforddiant ysgol gyfan ar lawr y dosbarth, er enghraifft ar adborth ac asesu a datblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae staff yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd dysgu proffesiynol ac maent wedi manteisio ar hyfforddiant allanol a chydweithio ag asiantaethau a phartneriaid allanol i wella agweddau ar eu hymarfer. Er enghraifft, mae ychydig o athrawon yn dilyn cwrs meistr trwy gefnogaeth yr ysgol ac mae ychydig wedi cyflawni cwrs arweinyddiaeth allanol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.gov.wales/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.gov.wales/

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 11/12/2023